

## DRAFFT

# Asesiad Cyfunol o Effaith ar Gydraddoldebau, Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg

Enw'r polisi, strategaeth, prosiect, rhaglen neu gynllun - y cynnig

Adolygiad Buddsoddi 2020 – y broses apelio

Newydd:



Diweddariad i fersiwn sy'n bod:

Tîm/adran	Grŵp prosiect Adolygiad Buddsoddi
Pwy sy'n cynnal yr asesiad?	Angela Thomas
Dyddiad yr asesiad	8 Awst 2019

# Cyflwyniad

Nod yr asesiad cyfunol yma o effaith yw sicrhau bod y polisiau a'r strategaethau rydym ni wrthi'n eu datblygu yn hyrwyddo blaenoriaethau cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hyn yn golygu cydraddoldebau, y Gymraeg a'r 7 nod llesiant yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r asesiad cyfunol o effaith yn cyfrannu at lunio polisiau effeithiol drwy ein hannog i feddwl am effaith a chanlyniadau ein gwaith. Drwy fynd i'r afael â'r materion hyn yn benodol ar y cam cynllunio cynharaf, rydym ni'n fwy tebygol o ddatblygu cynigion sy'n cyflawni ein blaenoriaethau. Os yw'r broses yma'n nodi problemau, mae gennym y cyfle i gymryd camau lliniaru i unioni pethau. Mae hyn yn ein helpu i fodloni ein gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy'r ddogfen yma rydym ni'n defnyddio'r gair 'cynnig' i gyfeirio at yr hyn rydym ni'n ei asesu sy'n cynnwys:

- strategaethau
- prosiectau
- polisiau
- rhaglenni
- mentrau

gan gynnwys rhai newydd a rhai cyfredol sy'n cael eu newid/diweddaru'n sylweddol.

Atebwch y cwestiynau canlynol a rhoi manylion pan fo'n briodol.

## 1. Beth yw prif nodau/dibenion/canlyniadau'r cynnig?

Yn ystod 2020 byddwn ni'n cynnal ein hadolygiad buddsoddi rheolaidd. Wedyn byddwn ni'n cyhoeddi ar gyfer y dyfodol ein harian craidd i sefydliadau allweddol ledled Cymru. Mae'n debyg y bydd newidiadau yn lefelau'r arian rydym ni'n ei gynnig hefyd i'r sefydliadau rydym ni'n eu cefnogi fel rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau yn gweld lefel eu harian yn cynyddu neu'n lleihau, neu'n diflannu. Mae'n bosibl hefyd y bydd sefydliadau eraill nad ydym ni wedi eu hariannu o'r blaen yn dechrau cael arian refeniw, o ganlyniad i'w cais.

Yma rydym ni'n egluro'r hawl i apelio a'i weithdrefn, sydd ar gael i unrhyw sefydliad sy'n anfodlon ar ein penderfyniad ariannu. Dim ond yn berthnasol i Adolygiad Buddsoddi 2020 mae'r weithdrefn apelio yma. Gyda chwynion am unrhyw fater arall, dylech chi ddarllen y gweithdrefnau "[Gwneud Cwyn](#)" sydd ar gael ar ein gwefan.

**2. Ar bwy y mae'r cynnig yn effeithio? Pwy sydd i fod cael budd o'r cynnig a sut?**

Unrhyw sefydliad sy'n gymwys i ymgeisio am arian dan delerau'r adolygiad, naill ai yn ei rinwedd ei hun neu'n rhan o gais ar y cyd â sefydliadau arall.

**3. Oedd ymgynghoriad/ymgysylltiad â'r bobl mae'r cynnig yn effeithio arnyn nhw?**

Dim ond ar gyfer adolygiad buddsoddi 2020 mae'r broses apelio yma wedi'i chreu. Nid yw'n disodli na diweddarau unrhyw weithdrefn gyfredol arall. Roedd y broses apelio ddiwethaf ar gyfer adolygiad buddsoddi 2015. Roedd hynny wrth gwrs cyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly bydd y cynnig a'r asesiad cyfunol o effaith yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar yr un pryd â chylch gorchwyl adolygiad buddsoddi 2020.

Bydd ein Cyngor yn cymeradwyo fersiynau terfynol o'r polisi a'r asesiad cyfunol o effaith. Wedyn byddwn ni'n eu cyhoeddi ar ein gwefan pan fydd ceisiadau'n agor. Byddwn ni'n tynnu sylw pob sefydliad cymwys at y cynnig a'r ffaith bod y polisi ar gael iddynt.

**4. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, y Gymraeg ac amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol?**

Llenwch y tabl yn Atodiad 1.

Os oes newidiadau, rhestrwch nhw yn y templed camau gweithredu yn Atodiad 2 .

Gweler Atodiad 1 a 2

**5. Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da?**

Dim ond ar broses apelio'r Cyngor mae'r cynnig yn canolbwyntio. Mae'r cynnig am gyflwyniadau gan sefydliadau cymwys, ni waeth oddi wrth bwy mae'r cyflwyniad yn dod neu beth yw ansawdd y cyflwyniad, a dim ond os oes modd profi bod unrhyw un o'r elfennau yn adran 2.7 o'r cynnig yn bresennol.

Byddwn ni'n gweithredu'r broses yn gyson gyda phob sefydliad cymwys sy'n apelio. Nid ydym ni wedi nodi unrhyw effeithiau gwahaniaethol sylweddol bosibl. Ond mae rhai mân effeithiau gwahaniaethol - cadarnhaol a negyddol. Mae'r dystiolaeth am y rhain yn yr atodiadau.

Asesiad cyfunol o effaith wedi'i gymeradwyo gan	Dyddiad cymeradwyo

## Atodiad 1

### Asesu effaith a chryfhau

Mae'r adran yma'n gofyn ichi asesu effaith y cynnig ar bob un o'r grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, y Gymraeg ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r cynnig ar y grwpiau canlynol

#### Nodwch yr effaith bosibl

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<b>Oedran</b> <i>(ar draws holl rychwant oed)</i>			Dim effaith	Dim ond ar broses apelio'r Cyngor mae'r cynnig yn canolbwyntio. Mae'r cynnig am gyflwyniadau gan sefydliadau cymwys, ni waeth oddi wrth bwy mae'r cyflwyniad neu ei ansawdd, a dim ond os oes modd profi bod unrhyw un o'r elfennau yn adran 2.7 o'r cynnig yn bresennol. Byddwn ni'n cynnig y broses yn gyson i bob sefydliad cymwys sy'n apelio ac nid ydym ni wedi nodi unrhyw effaith wahaniaethol bosibl.	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Anabledd</b>		<i>Effaith negyddol</i>		<i>a) Mae adran 3.1 o'r polisi'n nodi bod yn</i>	Bydd y ddogfen gyhoeddedig yn	

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Anabledd				<i>rhaid gwneud apêl ar y ffurflen apelio sy'n dod gyda hi.</i>	<p>datgan bod unrhyw gynrychiolydd o'r sefydliad sy'n apelio yn gallu llenwi'r ffurflen, cyn belled â bod y ffurflen sydd wedi'i llenwi yn dangos tystiolaeth o gymeradwyaeth gan uwch gynrychiolydd o'r sefydliad a Chadeirydd y Bwrdd neu uwch aelod o'r corff rheoli sy'n goruchwyllo gwaith y sefydliad.</p> <p>Bydd y Cyngor yn derbyn y ffurflen mewn fformatau amgen yn ôl ein gweithdrefnau arferol, ac rydym ni'n cynnwys datganiad i'r perwyl yna.</p> <p>Gan gyfeirio at 6.6 o'r polisi, rydym ni hefyd yn egluro na fydd</p>	

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<b>Anabledd</b>				<i>b) Efallai na fydd y lleoliad ar gyfer y gwrandawriad apêl mewn pellter teithio rhesymol i gynrychiolwyr y sefydliad sy'n apelio.</i>	unrhyw unigolion sy'n darparu cymorth cyfathrebu yn unig yn ystod y cyfarfod yn cael eu cyfrif yn rhan o'r ddau gynrychiolydd sy'n cael bod yn y gwrandawriad.  Wrth drefnu gwrandawriadau apêl byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrandawriad yn gyfleus i bawb o ran teithio a hygyrchedd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.	
<b>Ailbennu rhywedd</b>		Effaith negyddol		Gallai ymgeiswyr/aelodau'r panel deimlo'n ofnus pe bai'r ochr arall yn cynnwys dim ond un rhywedd	Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau cymysgedd o ddynion a merched ar y panel apêl	Amherthnasol
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>			Dim effaith	Gwelwch y sylw dan Oed uchod. Byddwn ni'n cynnig y broses yn gyson i bob	Amherthnasol	Amherthnasol

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>				sefydliad cymwys sy'n apelio ac nid ydym ni wedi nodi unrhyw effaith wahaniaethol bosibl.		
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>			Dim effaith	Fel uchod. Byddwn ni'n cynnig y broses yn gyson i bob sefydliad cymwys sy'n apelio ac nid ydym ni wedi nodi unrhyw effaith wahaniaethol bosibl.	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Hil</b>			Dim effaith	Fel uchod. Byddwn ni'n cynnig y broses yn gyson i bob sefydliad cymwys sy'n apelio ac nid ydym ni wedi nodi unrhyw effaith wahaniaethol bosibl.	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Crefydd/cred</b>			Dim effaith	Byddwn ni bob amser yn ymgyngori â phawb sy'n dod i gyfarfodydd apêl i sichrau nad ydyn nhw'n gwrthdaro gydag unrhyw wyliau crefyddol neu rai tebyg.	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Rhywedd</b>		Effaith negyddol		Gallai ymgeiswyr/aelodau'r panel deimlo'n ofnus pe bai'r ochr arall yn cynnwys dim ond un rhywedd	Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sichrau cymysgedd o ddyinion a merched ar y panel apêl	Amherthnasol

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>			Dim effaith	Byddwn ni'n cynnig y broses yn gyson i bob sefydliad cymwys sy'n apelio ac nid ydym ni wedi nodi unrhyw effaith wahaniaethol bosibl.	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Diwylliant a'r Gymraeg</b>	Effaith gadarnhaol			Byddem ni'n cynnig i'r sefydliadau'r cyfle i gynnal pob agwedd ar yr apêl yn eu dewis iaith heb unrhyw gostau ychwanegol iddyn nhw eu hunain. Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau cyfieithu proffesiynol fel y bo'n briodol.		Byddwn ni'n sicrhau bod ein hymrwymiad i'r Gymraeg ac i'r cyfle yma'n glir yn ein fersiwn gyhoeddedig a byddwn ni'n annog sefydliadau i nodi eu dewis iaith.  Byddwn ni hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod yr adolygwyr a'r panel annibynnol yn cynnwys siaradwyr Cymraeg.
<b>Cymunedol</b> <i>(gan gynnwys bod yn wledig)</i>				Efallai na fydd lleoliad y gwrandawriad apêl mewn pellter teithio rhesymol i gynrychiolwyr y sefydliad sy'n apelio.	Wrth drefnu gwrandawriadau apêl byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrandawriad yn gyfleus i bawb o ran	



	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<b>Cymunedol</b> <i>(gan gynnwys bod yn wledig)</i>					teithio a hygyrchedd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.	
<b>Byd-eang</b> <i>(defnydd o adnoddau naturiol, masnach deg, cyflogaeth foesegol a chaffael)</i>		Effaith negyddol		<p>a) Mae'n bosibl y gallai cynrychiolwyr y sefydliad ac aelodau'r panel apêl wynebu costau teithio sylweddol o ganlyniad i fynychu'r gwrandawriad</p> <p>b) Gallai aelodau'r panel sy'n hunangyflogedig golli cyfleoedd incwm posibl o ganlyniad i gynorthwyo apeliadau fel aelod o'r panel</p>	<p>Wrth drefnu gwrandawiadau apêl byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrandawriad yn gyfleus i bawb o ran teithio a hygyrchedd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.</p> <p>Byddwn ni'n ystyried amgylchiadau pob aelod o'r panel a gweithredu yn eu cylch pan ydym ni'n gwybod yn derfynol pwy yw'r aelodau. Lle bo'n briodol, mae gennym bolisi am wneud taliadau per diem.</p>	
<b>Iechyd</b>		Effaith negyddol		Efallai na fydd amseriad a lleoliad y gwrandawriad	Wrth drefnu gwrandawiadau apêl	

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<b>Iechyd</b>				apêl yn gyfleus i gynrychiolwyr y sefydliad sy'n apelio ar sail iechyd.	byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrandawriad yn gyfleus i bawb o ran iechyd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.	
<b>Ffyniant</b> <i>(gan gynnwys cynaliadwyedd, sefydlogrwydd ariannol a datblygu gyrfa/cyfle)</i>	Effaith gadarnhaol			Gwelwch y sylwadau dan Fyd-eang uchod. O ran colli incwm personol cynrychiolwyr sy'n mynychu gwrandawriadau apêl, byddwn ni'n ceisio mynd i'r afael â hyn a/neu ei leihau ond byddai'n amhriodol i fynychwyr ennill arian personol o ganlyniad i fynychu gwrandawriad apêl, ar wahân i'w digolledu.  Ond o ganlyniad i apêl lwyddiannus a derbyn/adfer arian craidd yn sgil hynny, byddai sefydliad yn gallu dod neu		Byddai hyn yn gallu caniatáu gweithgarwch celfyddydol cynyddol/parhaus y sefydliad i gyfranogwyr a chynulleidfaoedd yn yr ardal a'r sector y mae'n ei wasanaethu. Ond os na fydd sefydliad yn llwyddo yn ei apêl, byddwn ni'n tynnu sylw at

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<b>Ffyniant</b> <i>(gan gynnwys cynaliadwyedd, sefydlogrwydd ariannol a datblygu gyrfa/cyfle)</i>				aros yn sefydlog a chynaliadwy'n ariannol		opsiynau ariannu eraill a allai fod ar gael iddynt (e.e. rhaglenni'r Loteri Genedlaethol)
<b>Gwytchwch</b> <i>(amgylchedd naturiol gan gynnwys nwyon tŷ gwydr ac ôl troed carbon)</i>		Effaith negyddol		Efallai na fydd lleoliad y gwrاندawiad apêl mewn pellter teithio rhesymol i gynrychiolwyr y sefydliad sy'n apelio.	Wrth drefnu gwrاندawiadau apêl byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrاندawiad yn gyfleus i bawb o ran teithio a hygyrchedd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.	

## Atodiad 2

### Camau gweithredu sy'n deillio o'r asesiad yma

Wrth greu cam gweithredu rhaid ichi wneud yn siŵr bod modd ei chyflawni. Mae angen ichi drafod y camau gweithredu gyda'r swyddog arweiniol. Cytunwch ar amserlen, sut bydd y cam gweithredu'n cael ei ariannu, ei ddarparu a'i fonitro. Rhaid gwneud hyn cyn cymeradwyo'r asesiad o effaith a'r cynnig cysylltiedig.

Mater	Cam gweithredu/tasg	Cyfrifoldeb arweiniol	Amserlen	Goblygiadau o ran adnoddau	Sylwadau
Rhaid i sefydliad apelio gan ddefnyddio'r templed penodol sydd yno	Sicrhau bod y canllawiau yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>• caniatâd i unrhyw un lenwi'r templed ar ran y sefydliad, cyn belled â'i fod wedi'i lofnodi ar lefel uwch yn y sefydliad</li><li>• byddwn ni'n derbyn y ffurflen mewn fformatau amgen</li><li>• egluro na fydd unrhyw unigolion sy'n darparu cymorth cyfathrebu yn unig yn ystod y cyfarfod yn cael ei gyfrif fel rhan o'r ddau gynrychiolydd sy'n cael bod yn y gwrandawriad</li></ul>	Cyfarwyddwr Ariannu'r Celfyddydau	Cyn Mawrth 2020 (dyddiad dechrau derbyn ceisiadau)		Mae'r canllawiau drafft cyfredol yn ymdrin â hyn

Mater	Cam gweithredu/tasg	Cyfrifoldeb arweiniol	Amserlen	Goblygiadau o ran adnoddau	Sylwadau
Efallai na fydd lleoliad y gwrandawriad apêl mewn pellter teithio rhesymol i gynrychiolwyr y sefydliad sy'n apelio.	Wrth drefnu gwrandawriadau apêl byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrandawriad yn gyfleus i bawb o ran teithio a hygyrchedd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	Cyn 5 Tachwedd 2020 (neu ddyddiad cau derbyn penderfyniad yr adolygydd annibynnol os yw'n cael ei ddiwygio)		Yn ddarostyngedig i unrhyw apêl lwyddo wrth gam 1 (yr ystyriaeth gyntaf)
Gallai ymgeiswyr/aelodau'r panel deimlo'n ofnus pe bai'r ochr arall yn cynnwys dim ond un rhywedd	Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau cymysgedd o ddyinion a merched ar y panel apêl	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	Cyn 5 Tachwedd 2020 (neu ddyddiad cau derbyn penderfyniad yr adolygydd annibynnol os yw'n cael ei ddiwygio)		Yn ddarostyngedig i unrhyw apêl lwyddo wrth gam 1 (yr ystyriaeth gyntaf)
Byddwn ni'n cynnig i sefydliadau'r cyfle i gynnal pob agwedd ar yr apêl yn eu dewis iaith heb iddynt fynd i unrhyw gostau.	Byddwn ni'n cynnwys hyn yn ein canllawiau ac ymdrechu i sicrhau bod yr adolygwyr a'r panel annibynnol yn cynnwys siaradwyr Cymraeg.	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	Cyn 5 Tachwedd 2020 (neu ddyddiad cau derbyn penderfyniad yr adolygydd annibynnol)	Cyfieithydd allanol	Yn ddarostyngedig i unrhyw apêl lwyddo wrth gam 1 (yr ystyriaeth gyntaf)

Mater	Cam gweithredu/tasg	Cyfrifoldeb arweiniol	Amserlen	Goblygiadau o ran adnoddau	Sylwadau
			os yw'n cael ei ddiwygio)		
Mae'n bosibl y gallai cynrychiolwyr y sefydliad ac aelodau'r panel apêl wynebu costau teithio sylweddol o ganlyniad i fynychu'r gwrandawriad	Wrth drefnu gwrandawriadau apêl byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrandawriad yn gyfleus i bawb o ran teithio a hygyrchedd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	Cyn 3 Rhagfyr (neu'r dyddiad cau i'r panel wrando ar apeliadau os yw'n cael ei ddiwygio)		Yn ddarostyngedig i unrhyw apêl lwyddo wrth gam 1 (yr ystyriaeth gyntaf)
Gallai aelodau panel sy'n hunangyflogedig gollu cyfleoedd incwm posibl o ganlyniad i fod yn aelod o'r Panel	Byddwn ni'n ystyried amgylchiadau pob aelod o'r panel a gweithredu yn eu cylch pan ydym ni'n gwybod yn derfynol pwy yw'r aelodau. Lle bo'n briodol, mae gennym bolisi am wneud taliadau per diem	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	Cyn 3 Rhagfyr (neu'r dyddiad cau i'r panel wrando ar apeliadau os yw'n cael ei ddiwygio)		Yn ddarostyngedig i unrhyw apêl lwyddo wrth gam 1 (yr ystyriaeth gyntaf)
Efallai na fydd amseriad a lleoliad y gwrandawriad apêl yn gyfleus i gynrychiolwyr y sefydliad sy'n apelio ar sail iechyd.	Wrth drefnu gwrandawriadau apêl byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliad ac amseriad y gwrandawriad yn gyfleus i bawb o ran	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	Cyn 3 Rhagfyr (neu'r dyddiad cau i'r panel wrando ar apeliadau os		Yn ddarostyngedig i unrhyw apêl lwyddo wrth gam 1 (yr ystyriaeth gyntaf)

Mater	Cam gweithredu/tasg	Cyfrifoldeb arweiniol	Amserlen	Goblygiadau o ran adnoddau	Sylwadau
	iechyd. Byddwn ni'n ystyried defnyddio cyfleusterau Skype fel dewis arall.		yw'n cael ei ddiwygio)		
<p><b>Sut byddwn ni'n monitro'r rhain?</b>  Drwy'r grŵp prosiect Portffolio Celfyddydol Cymru a thrwy adolygu cynnydd mewn cyfarfodydd misol yr Uwch Dîm Arwain yn rhan o adolygiad y rheolwyr o wybodaeth</p>					
<p><b>Sut a ble byddwn ni'n cyhoeddi hyn?</b>  Ar ein gwefan. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn ni'n cyhoeddi'r Asesiad Cyfunol terfynol o Effaith gyda'r cylch gorchwyl a'r canllawiau a'r templedi cysylltiedig.</p>					